Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,<br>17 EBRILL, 2024 am 2.00 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY,<br>17 APRIL, 2024 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN THE COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM** |

| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752518** | **Committee Officer** |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**

Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Data a bydd data a gasglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gafwyd ar 13 Mawrth 2024.

**4 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**5 BLAEN RAGLEN WAITH 2024/2025** (Tudalennau 17 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor.<br><br>**Aelodau Portffolio:**<br><br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion;<br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid yn yr Hinsawdd.<br><br>**Aelodau Cyfetholedig:**<br><br>Mrs Gillian Thompson (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd);<br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Polisi a’r Gymraeg (FO) (ar gyfer eitem 6 yn unig),<br>Rheolwr Rhaglen Ffyniant Bro (EM) (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol (ATR) (ar gyfer eitem 3 yn unig),<br>Rheolwr Prosiect (AWJ) (ar gyfer eitem 3 yn unig),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Jeff M Evans, John Ifan Jones a Sonia Williams.<br><br>Cynghorydd Llinos Medi – Arweinydd y Cyngor;<br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai;<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff;<br>Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid. |

Dirprwy Brif Weithredwr.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Glyn Haynes.

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2024 yn gywir.

**3 CYNLLUN STRATEGOL TRECHU TLODI - 2024-2029**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cynnwys Cynllun Strategol Trechu Tlodi 2024-2029 i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, yn absenoldeb yr Arweinydd, fod y Cynllun Strategol Trechu Tlodi yn gynllun allweddol, ei fod wedi cael ei gydnabod fel blaenoriaeth a'i fod hefyd yn cael ei lywio gan Gynllun y Cyngor 2023-2028. Mae'r Cynllun yn darparu cyfeiriad clir ac yn cynnwys gweledigaeth a meysydd blaenoriaeth allweddol er mwyn mynd i'r afael â thlodi dros y pum mlynedd nesaf, a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd gyda phartneriaid allanol i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi. Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol hwn, rhoddwyd ystyriaeth i sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, lle mae cyllid craidd ac arian grant yn gostwng yn barhaus, ynghyd â'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â swyddogion mewnol ar bob lefel, ac amryw randdeiliaid wrth baratoi'r Cynllun.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cynllun yn rhoi cyfarwyddyd clir ynghylch sut y gall y Cyngor gynorthwyo trigolion Ynys Môn i geisio lleihau'r tlodi y maent yn ei wynebu gan eu cyfeirio at gyrff allanol eraill sy'n cynnig cymorth. Trefnwyd sesiwn ymgysylltu gyda sefydliadau partner gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector, Fforwm Pobl Hŷn, Fforwm Plant a Phobl Ifanc a chynrychiolwyr o holl wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i fod yn gynaliadwy. Er mwyn hwyluso'r cynllun, mae dangosfwrdd costau byw newydd gael ei lansio i ddarparu data cadarn, integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel y gall y Cyngor wneud penderfyniadau cywir a gwybodus wrth fynd i'r afael â thlodi ar Ynys Môn ac i fesur faint o fwyd sy'n cael ei ddosbarthu o'r Banciau Bwyd a faint o bobl sy'n ymgysylltu â gwasanaethau oherwydd eu hanghenion.

Wrth ystyried y Cynllun Strategol Trechu Tlodi, cododd y Pwyllgor y materion canlynol:–

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y gwnaed y penderfyniad gan y Cyngor i fabwysiadu'r diffiniad o dlodi - '*Mae tlodi'n golygu bod heb ddigon o adnoddau a chyfleoedd i ddiwallu anghenion sylfaenol, yn cynnwys anghenion yn gysylltiedig â bod yn rhan o gymdeithas'.* Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod wedi mabwysiadu diffiniad Sefydliad Bevan. Dywedodd nad oes un diffiniad penodol o dlodi gan y gall tlodi fod yn gysylltiedig â diffyg profiadau mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol bobl sy'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau. Gall ei union natur ddibynnu ar amgylchiadau unigol, o beidio â chael digon o arian i dalu am hanfodion fel bwyd, dillad, tai, gwresogi, i ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pwy yr ymgynghorwyd â nhw wrth baratoi'r Cynllun Strategol a ph'un ai yr ystyrir fod rhai rhanddeiliaid heb gymryd rhan. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen fod y broses o baratoi'r Cynllun wedi ei chynnal ym mis Tachwedd, 2023 gyda phartneriaethau trydydd parti a rhanddeiliaid eraill i fesur blaenoriaethau cychwynnol i fynd i'r afael â thlodi. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cynllun yn strategaeth 5 mlynedd, a bydd modd cynnwys gwelliannau o fewn y Cynllun, yn ôl yr angen, gan na wyddant yn siŵr pa heriau'n gysylltiedig â thlodi ac amgylchiadau a allai godi yn y blynyddoedd nesaf. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bwysig nodi bod sefydliadau wedi bod yn rhan o baratoi'r strategaeth gan fod ganddynt brofiad o ddelio ag unigolion sy'n wynebu tlodi. At hyn, dywedodd, oherwydd y galw a'r diffyg adnoddau, ei bod yn dasg anodd mynd i'r afael â thlodi.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod y Cynllun drafft yn cynnwys chwe blaenoriaeth ac o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, gofynnwyd i ba raddau y mae hyn yn rhy uchelgeisiol. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch sut y dylid monitro a rheoli canlyniadau'r blaenoriaethau, a sut y dylid casglu'r data er mwyn galluogi'r Cyngor i nodi tlodi mewn ardaloedd ar Ynys Môn. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod yn derbyn bod y blaenoriaethau o fewn y Cynllun yn uchelgeisiol, fodd bynnag, nodwyd ffiniau realistig gyda'r rhanddeiliaid o ran sut y gall y Cyngor gynorthwyo i fynd i'r afael â thlodi yn sgil yr hinsawdd ariannol bresennol a'r ansicrwydd ynghylch a fydd grantiau ar gael ar gyfer prosiectau trechu tlodi. Dywedodd y bydd Grŵp Strategol yn mesur llwyddiant y Cynllun Strategol Trechu Tlodi bob chwarter a bydd y dangosfwrdd costau byw yn rhoi gwybodaeth am ofynion trigolion yr Ynys sy'n wynebu tlodi. Dywedodd y Prif Weithredwr fod dangosfyrddau yn gallu mesur y tueddiadau ar draws Ynys Môn, ond pwysleisiwyd bod prinder staff i allu diweddaru'r wybodaeth i'r dangosfyrddau.
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y caiff trigolion wybod am y cymorth sydd ar gael iddynt os ydynt yn cael trafferth talu am anghenion hanfodol, yn enwedig yr henoed a allai fod yn rhy falch i ofyn am gymorth. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod llawlyfr wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu i lyfrgelloedd lleol, canolfannau hamdden, ysgolion a phartneriaid agos yn rhoi gwybod iddynt sut i gael gafael ar y gwasanaethau sydd ar gael i helpu pobl mewn tlodi. Dywedodd nad yw rhai pobl yn ymwybodol o'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, nac yn eu hawlio. At hyn, dywedodd fod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd derbyn bod angen iddynt hawlio'r budd-daliadau sydd ar gael a gall mynd i'r afael â'r stigma sydd ynghlwm wrth ofyn am help i gael gafael ar gymorth ariannol fod yn heriol.

- Cyfeiriwyd at y bylchau mewn cyrhaeddiad plant ysgol oherwydd tlodi. Codwyd cwestiynau ynghylch a oes lle i edrych y tu hwnt i Ysgolion sy'n seiliedig ar Drawma gyda Phenaethiaid a'r Consortia a ph’un ai y gall yr ymchwil gan brifysgolion a chyrff cysylltiedig eraill helpu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod y gofynion ar staff ysgolion eisoes yn sylweddol gyda'r newidiadau i'r cwricwlwm, y problemau RAAC mewn dwy Ysgol Uwchradd gyda phlant yn gorfod cael eu dysgu gartref, a'r argyfwng ariannol sy'n wynebu cymdeithas. Dywedodd ei fod yn cael ei gydnabod bod angen buddsoddi mewn pobl ifanc er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl yn eu bywydau ond oherwydd diffyg adnoddau o fewn llywodraeth leol, mae hon yn her gynyddol. Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd ynghylch y gwaith ymchwil a wnaed gan brifysgolion a chyrff cysylltiedig eraill i leihau'r bwlch cyrhaeddiad, roedd y Prif Weithredwr yn awyddus i enghreifftiau o ymchwil gael eu hanfon at y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hystyried.
- Cyfeiriwyd at dlodi ariannol a chyflogaeth i bobl ifanc. Codwyd cwestiynau ynghylch a ydym yn cysylltu â chwmnïau ar yr Ynys i ofyn a allant gynnig prentisiaethau i bobl ifanc fel eu bod yn gallu aros ar yr Ynys. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi torri'r grantiau ar gyfer cynlluniau prentisiaethau. Cytunodd y Prif Weithredwr fod lefel y cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau yn peri pryder ac oherwydd yr argyfwng ariannol mae Coleg Menai/Llandrillo yn gorfod gwrthod derbyn pobl ifanc ar gyrsiau penodol. Dywedodd fod rhai cwmnïau wedi bod yn dibynnu ar brentisiaethau dros y blynyddoedd ond gan nad yw'r ardoll brentisiaethau ar gael, nid ydynt yn gallu fforddio cynnig cynlluniau prentisiaeth i bobl ifanc. Cyfeiriodd at y cyfleoedd cyllido posibl o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin, os caiff adnoddau ychwanegol eu rhoi fel rhan o'r Gronfa hon. Nododd fod yr Awdurdod hwn yn cyfrannu tuag at yr ardoll brentisiaethau a’i fod yn cael ei ailddosbarthu drwy Lywodraeth Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y dylid anfon llythyr ar y cyd ar ran y Cyngor hwn a Choleg Menai/Llandrillo at Lywodraeth y DU ac at y Prif Weinidog newydd yn mynegi y dylid rhoi mwy o adnoddau ariannol tuag at gynlluniau prentisiaethau.

**PENDERFYNWYD argymell bod Cynllun Strategol Trechu Tlodi 2024-2029 yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor Llawn.**

**GWEITHREDU: Anfon llythyr ar y cyd ar ran yr Awdurdod hwn a Grŵp Llandrillo Menai at Lywodraeth y DU a'r Prif Weinidog newydd yn mynegi pryderon ynghylch effaith y penderfyniad i leihau'n sylweddol yr adnoddau ariannol tuag at gynlluniau prentisiaeth yn y DU.**

## 4 DIWEDDARIAD CYNLLUN DIOGELU STRATEGOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cynnwys Diweddariad Diogelu Corfforaethol Strategol i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno.

Dywedodd Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion fod atal a diogelu wedi'i restru fel un o egwyddorion cyffredinol allweddol y Cyngor yng Nghynllun Corfforaethol

2023-2028. Pwysleisiodd fod diogelu yn flaenoriaeth i bawb ym mhob gwasanaeth o fewn y Cyngor.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y ffocws wedi bod ar gynllun gweithredu diogelu a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i ganolbwyntio ar hyfforddiant gorfodol i holl staff y Cyngor. Cynhaliwyd wythnos Ddiogelu lwyddiannus ym mis Tachwedd 2023 - mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Nododd fod y cynnydd amlwg mewn achosion o gam-drin domestig ar Ynys Môn wedi cael ei drafod yn y Bwrdd Diogelu ac o ganlyniad uwchgyfeiriwyd y mater i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Tai a Dirprwy Brif Weithredwr Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd. Nodwyd nad yw hon yn sefyllfa sy'n unigryw i Ynys Môn gan fod awdurdodau lleol eraill yn sylwi ar gynnydd mewn achosion o gam-drin domestig. Bydd Strategaeth Diogelu Corfforaethol newydd yn cael ei datblygu dros y misoedd nesaf ynghyd â blaen raglen waith a bydd Cylch Gorchwyl y Grwpiau Strategol a Gweithredu hefyd yn cael ei adolygu.

Wrth ystyried y Diweddariad Diogelu Corfforaethol Strategol cododd y Pwyllgor y materion canlynol:–

- Gofynnwyd am eglurder ynghylch pa fesurau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion hyfforddiant diogelu corfforaethol a sut mae'n cael ei fonitro ac yn enwedig mewn ysgolion. Mynegwyd hefyd y dylid cynnwys data hyfforddi Aelodau Etholedig yn yr adroddiad hefyd. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y data'n dangos bod presenoldeb yn y sesiynau gorfodol ar ddiogelwch yn is na'r disgwyl mewn rhai gwasanaethau. Nododd fod trosiant staff yn ddiweddar mewn rhai gwasanaethau a bod rhai staff heb fynediad at liniaduron i dderbyn hyfforddiant o'r fath. Dywedodd y bydd trefniadau'n cael eu gwneud i wahodd yr unigolion hyn i Swyddfeydd y Cyngor i dderbyn yr hyfforddiant diogelu gorfodol maes o law. Cynhelir trafodaethau gyda Phenaethiaid Ysgolion i sicrhau bod y cwrs hyfforddiant diogelu gorfodol yn cael ei gwblhau gan bob aelod o staff.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod yr adroddiad yn dangos cynnydd amlwg mewn achosion o gam-drin domestig ar Ynys Môn. Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn gwbl gymwys i ddelio â'r sefyllfa a rôl Heddlu Gogledd Cymru o ran y cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, er bod cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig, nid oes adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Nododd fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Gorwel sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth sy'n cynnwys pobl sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a digartrefedd. Cynhelir trafodaethau hefyd ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac yn enwedig yr Adran Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu data am achosion o gam-drin domestig. Mae staff yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn cefnogi plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae achosion o gam-drin domestig. At hyn, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, oherwydd y cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig, y gallai sefyllfa godi lle bydd angen creu 'rhestr aros' am gymorth – sefyllfa nad yw'r Awdurdod hwn yn dymuno bod ynddi. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a yw tueddiadau penodol wedi cyfrannu at gynnydd mewn achosion o gam-drin domestig h.y.

tlodi, cyffuriau, alcohol.  Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn fater cymhleth gyda sawl ffactor ynghlwm â cham-drin domestig. Nododd y gellir cyflwyno gwybodaeth ychwanegol am y gwahanol ffactorau sy'n ymwneud â cham-drin domestig i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa sicrwydd y gellir ei roi bod trefniadau ar waith i fodloni Amcan 2 y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol yn llawn sy'n trafod gweithlu sy’n gymwys i gyflawni eu dyletswyddau diogelu yn effeithiol ar lefel sy'n ddigonol o ran eu rôl a'u cyfrifoldebau.  Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod data staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi gorfodol yn bwysig a bod digwyddiadau diogelu hefyd ar gael i staff er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu o fewn eu rôl a'u cyfrifoldebau.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod adroddiadau am lithriant yn erbyn sawl ffrwd waith allweddol.  Codwyd cwestiynau ynghylch y rhesymau dros y llithriant a pha drefniadau sydd ar y gweill i liniaru'r effeithiau.  Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod hyfforddiant sylfaenol o ymwybyddiaeth diogelwch a'r data a ddangosir yn yr adroddiad wedi gwella.  Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn bwysig recriwtio staff sydd â'r cymwyseddau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o’u cyfrifoldebau o ran diogelu.
- Codwyd cwestiynau ynghylch data oedd ar gael mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern.  Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod Bwrdd Partneriaeth Gwynedd a Môn yn derbyn data gan Heddlu Gogledd Cymru yn chwarterol am gaethwasiaeth fodern.  Nododd mai'r Dirprwy Brif Weithredwr yw prif swyddog yr Awdurdod hwn ar y Bwrdd a gwneir trefniadau iddo adrodd i'r Pwyllgor hwn ar fater caethwasiaeth fodern.

**PENDERFYNWYD nodi'r datblygiadau dros y 12 mis diwethaf sy'n cynnig sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau diogelu.**

**GWEITHREDU: Dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sicrhau y dylai hyfforddiant diogelu corfforaethol fod yn rhan o'r Rhaglen Hyfforddi ar gyfer Aelodau Etholedig.**

**5 RHAGLEN FFYNIANT BRO - CAERGYBI - MESUR CYNNYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Rhaglen Ffyniant Bro ar gyfer Caergybi i'r Pwyllgor ei hystyried a chraffu arni.

Dywedodd Aelod Portffolio Gwasanaeth Oedolion, yn absenoldeb Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd mai pwrpas y Gronfa Ffyniant Bro (LUF), sy’n gronfa gyfalaf yn unig, yw buddsoddi mewn seilwaith economaidd-gymdeithasol craidd sy'n gwella bywydau pobl ledled y DU.  Lansiwyd y gronfa gwerth £4.8 biliwn ym mis Mawrth 2021 ac mae'n canolbwyntio ar 3 maes allweddol i helpu i adfywio canol trefi a'r stryd fawr: prosiectau trafnidiaeth lleol, ac asedau diwylliannol a threftadaeth.  Penderfynodd y Cyngor Sir fod cais yn canolbwyntio ar 'dreftadaeth; diwylliant a threflun Caergybi yn hytrach nag anghenion adfywio ehangach yr Ynys yn debygol o fod yn fwy apelgar i Lywodraeth y DU.  Ni ellir tanbrisio maint a chymhlethdod y gwaith a wnaed i ddatblygu'r cais. Arweiniodd

hyn at gydweithio sylweddol a dwys gan y Cyngor Sir gyda phartneriaid o Gaergybi.

Adroddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y bydd yr amserlen ar gyfer cwblhau'r prosiectau erbyn diwedd mis Mawrth 2025 yng Nghaergybi yn heriol, fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu gofyn am estyniad i'r amserlen sy'n debyg i brosiectau LUF eraill yn y rhanbarth. Mae chwyddiant wedi dylanwadu ar y rhaglen gyda chostau cynyddol, a phwysleisiodd ei bod yn bwysig bod yn realistig o ran yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlen a'r cyllid sydd ar gael. At hyn, dywedodd fod prosiectau pwysig ac amlwg yng Nghaergybi wedi dechrau, a bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar brosiect Canolfan Ucheldre. Dywedodd hefyd bod modd gweld nodau a manylion pob prosiect yng Nghaergybi ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth i'r gymuned leol am y rhaglen. Mae'r Tîm Ffyniant Bro wedi'i leoli yng Nghaergybi ac mae aelodau'r tîm ar gael i'r gymuned ymgysylltu â nhw a chynnig gwybodaeth yn ôl yr angen.

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion canlynol:–

- Gofynnwyd i ba raddau y mae'r gyllideb yn ddigonol i gyflwyno'r rhaglen gyfan ar sail yr amserlen a bennwyd. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Rhaglen Ffyniant Bro fod gofyn i'r prosiectau ddilyn proses gaffael y Cyngor. Bu'n rhaid ail-hysbysebu rhai tendrau sy'n golygu bod yr amserlen wedi'i hymestyn. Yn dilyn y broses gaffael, mae'n amlwg nad yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigon ar gyfer yr holl brosiectau a nodwyd yng Nghaergybi ac mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda'r sefydliadau partner i ystyried amserlen a chostau pob prosiect unigol. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a yw hyn wedi arwain at fethu â chwblhau rhai o'r prosiectau ac a fydd y Bwrdd yn penderfynu pa brosiectau fydd yn derbyn cyfran o'r cyllid yn unig. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr y bydd angen addasu nifer y prosiectau o fewn y rhaglen ac y gallai hyn fod â goblygiadau gan fod gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau allanol. Yn sgil chwyddiant, mae'r costau wedi codi o fewn y prosiectau ac mae'n fater sensitif ar hyn o bryd. Gellir addasu rhai prosiectau ond does dim pwrpas dechrau prosiect os nad yw'r cyllid ar gael. Mae gan nifer o sefydliadau partner nifer o brosiectau o fewn y rhaglen a bydd angen iddynt benderfynu pa brosiect sy'n cael blaenoriaeth.
- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau mae gallu partneriaid allweddol i gyflawni yn peri risg i lwyddiant y rhaglen gyfan. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Rhaglen Ffyniant Bro fod risgiau wedi'u nodi ar ddechrau'r rhaglen o ran gallu sefydliadau partner i gyflawni eu prosiectau. Mae'r Tîm Ffyniant Bro yn cyfarfod y partneriaid yn fisol i fesur cynnydd pob prosiect a chynhelir adolygiad chwarterol i gael trosolwg o gyllid ac amserlen y prosiectau.
- Codwyd cwestiynau ynghylch faint o weithwyr lleol sy'n cael eu cyflogi gan gontractwyr yn y prosiectau a phryd y rhagwelir y gwelir budd y prosiectau. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Rhaglen Ffyniant Bro, fel rhan o'r rhaglen, y gofynnir i sefydliadau partner gadw cofrestr o'u gweithwyr a ph'un ai a ydynt yn byw'n lleol ai peidio. Nododd fod un o'r sefydliadau partner wedi cynnig dwy brentisiaeth gydag adeiladwyr Môn. Bydd y budd a geir o'r prosiectau yn cael ei fesur ar sail yr adeiladau a adnewyddwyd yng Nghaergybi a nifer y cyfleoedd cyflogaeth a gynigwyd i bobl leol.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau a wnaed i gyfathrebu er mwyn hyrwyddo'r rhaglen a sut y gellir eu cryfhau. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth

Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ei fod yn bwysig bod lefel uchel o gyfathrebu â’r gymuned leol. Mae manylion y prosiectau yng Nghaergybi ar gael ar-lein ac yn rhoi trosolwg o bwy sy'n arwain y prosiectau. Nododd fod dau ddigwyddiad cyfathrebu wedi'u trefnu sy'n sicrhau eu bod yn ymgysylltu’n gyson â chymuned Caergybi ac mae disgwyl i ddigwyddiad arall gael ei gynnal ym mis Ebrill.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi’r cynnydd o ran datblygu a chyflwyno'r rhaglen LUF yng Nghaergybi**
- **Nodi bod y Rhaglen LUF yn cael ei chyflawni’n unol â chanllawiau Llywodraeth y DU**
- **Cydnabod rôl y Cyngor wrth gefnogi Partneriaid Darparu'r Rhaglen**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB - 2022/2023**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Blynyddol – 2022/2023 i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno.

Dywedodd Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, yn absenoldeb Arweinydd y Cyngor, fod yn rhaid i'r Cyngor, o dan Reoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010, gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Prif bwrpas yr adroddiad yw dangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb a rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn yn dilyn y cyfnod adrodd.

Adroddodd y Rheolwr Polisi a’r Gymraeg mai Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022/2023 yw'r adroddiad olaf yn ei ffurf bresennol a bydd trefniadau newydd yn cael eu sefydlu i gyd-fynd â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028.

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion canlynol:–

- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y cyflawnodd y Cyngor ei amcanion a'i flaenoriaethau cydraddoldeb yn llawn ar gyfer 2020-2024. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a’r Gymraeg fod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 yn cynnwys 20 dangosydd o'r hyn y dylid disgwyl ei weld pan fydd camau gweithredu wedi'u cwblhau. Nododd fod 19 o'r dangosyddion wedi'u cwblhau a bod un dangosydd, sy'n destun pryder, sef casglu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb ymhlith gweithwyr y Cyngor. At hyn, dywedodd fod angen cryfhau cydraddoldeb o fewn y gweithlu ac ar draws yr Ynys hefyd gyda'r rhan fwyaf o flaenoriaethau cydraddoldeb yn trosglwyddo i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028. Dywedodd y Rheolwr Polisi a’r Gymraeg fod y Cynllun Cydraddoldeb presennol wedi'i gymeradwyo yn

2020 a bod sawl ffactor, fel yr argyfwng costau byw, yn effeithio ar y gallu i gyflawni rhai o'r amcanion o fewn y cynllun.

- Codwyd cwestiynau ynghylch y risg i'r Cyngor fod bylchau data yn dal i fodoli yn y wybodaeth am gydraddoldeb ynghylch gweithwyr y Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod casglu gwybodaeth ynglŷn â gweithlu'r Cyngor yn heriol gan ei fod yn dibynnu ar barodrwydd staff i rannu gwybodaeth yn wirfoddol. Mae casglu gwybodaeth gan weithwyr newydd yn dasg haws gan fod disgwyl iddynt rannu gwybodaeth am gydraddoldeb pan fyddant yn llenwi ffurflenni cais a hefyd yn ystod y broses sefydlu. Fel rhan o'r ffactorau risg, dywedodd fod angen casglu cymaint o wybodaeth â phosibl gan y gweithwyr er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gyflogwr teg ac yn gallu cynnig cyfle cyfartal i'r staff. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig cyfleu i'r gweithwyr na wneir unrhyw ddefnydd amhriodol o'r wybodaeth a gaiff ei rhannu. Fodd bynnag, os nad yw'r wybodaeth gan weithwyr yn cael ei rhannu, gallai'r Cyngor fod yn rhagfarnu yn ddiarwybod. Mae data o ansawdd yn hanfodol er mwyn sicrhau cydraddoldeb o fewn y gweithlu a bod y Cyngor yn gyflogwr cynhwysol ac apelgar.
- Cyfeiriwyd at y polisi gweithio hybrid a chodwyd cwestiynau ynghylch yr effaith ar staff o ystyried y feirniadaeth a'r sylwadau amhriodol/negyddol a welwyd ar gyfryngau cymdeithasol oherwydd bod staff yn gweithio gartref. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod staff y Cyngor yn gweithio'n galed er budd trigolion Ynys Môn a bod sylw ar y cyfryngau cymdeithasol wedi dwysáu dros y blynyddoedd diwethaf gyda sylwadau amhriodol yn cael eu gwneud am sawl mater. Fel Prif Weithredwr, roedd o'r farn bod y Cyngor wedi elwa o drefniant gweithio hybrid gyda chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith er budd y Cyngor. Mae'n ofynnol i staff weithio oriau craidd a rhoddir cymorth i staff o safbwynt llesiant. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod hyfforddiant a chwnsela ar gael i staff y Cyngor.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod yr Adroddiad Blynyddol yn nodi y bydd trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer 2024-2028. Codwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r trefniadau hyn yn effeithio ar adroddiadau blynyddol y Cyngor ar gydraddoldeb yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Democratiaeth fod Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar a bydd trefniant yn cael ei wneud i adolygu arddull a fformat yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb. Bydd Grŵp Mewnol yn cael ei gynnull i arwain y gwaith ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a bydd yn ystyried a ellir cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr Adroddiad hefyd. Bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gyda Thimau Cyfathrebu'r Cyngor i sicrhau cysondeb â chyhoeddiadau eraill gan fod nifer o gynlluniau strategol eraill yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd gan y Cyngor.
- Cyfeiriwyd at Atodiad 3 yr Adroddiad Blynyddol sy'n nodi ei fod yn hyderus nad yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu cyflog gwahanol i ddynion a menywod am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y gellir rhoi sicrwydd o hyn rhag i'r Cyngor orfod wynebu canlyniadau ariannol sylweddol fel y gwelwyd mewn rhai awdurdodau lleol, fel Cyngor Dinas Birmingham. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod hawliadau cyflog cyfartal wedi cael effaith ar adnoddau ariannol Cyngor Dinas Birmingham. Cynhaliwyd proses gwerthuso swyddi o fewn y Cyngor hwn sawl blwyddyn yn ôl. Bryd hynny cafodd pob swydd ei gwerthuso, ei hadolygu a'i sgorio gan Banel

Annibynnol.  Dywedodd efallai bod achosion unigol posibl o hawliadau cyflog cyfartal wedi codi ond mae polisïau Adnoddau Dynol cadarn a graddfeydd cyflog yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r Undebau Llafur.

- Codwyd cwestiynau ynghylch ymateb staff i'r cwrs Cymraeg a gynigiwyd gan y Cyngor.  Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod trafodaethau ynghylch anghenion hyfforddi staff yn cael eu cynnal yn ystod y Sgwrs Flynyddol am eu Datblygiad gyda'u Rheolwyr Llinell.   Mae sgiliau Cymraeg hefyd yn cael eu gwerthuso yn ystod y Sgwrs Flynyddol am eu Datblygiad gyda chyfle i nodi cyfleoedd datblygu.  Yna cesglir data gan y Tîm Adnoddau Dynol a chynigir rhaglen hyfforddi i staff. At hyn, dywedodd fod cynrychiolaeth dda o holl wasanaethau'r Cyngor ar y cyrsiau Cymraeg. Dywedodd hefyd fod disgwyliad ychwanegol ar staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel rhan o fframwaith cenedlaethol 'Mwy na Geiriau' a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, y dylai pobl allu derbyn gofal yn eu dewis iaith, oherwydd gall hyn gael effaith ar y bobl fwyaf bregus pan mai'r Gymraeg yw eu hiaith gyntaf.  Bydd manylion am ddadansoddi'r anghenion hyfforddi o ran y Gymraeg o fewn y gweithlu yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg a gyhoeddir ym mis Mehefin.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022/2023.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR -- 2023/2024

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn nodi Blaen Raglen Waith Ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar y fersiwn ddiweddaraf o'r blaen raglen waith ar gyfer 2023/2024;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Mehefin, 2023** |
| **Pwnc:** | **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **1. Adolygu trefniadau cyflawni'r BGC**<br>**2. Monitro cynnydd y BGC o ran gweithredu Cynllun Llesiant 2023-2028** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Sandra Thomas,**<br>**Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**<br>**01286 679906**<br>**sandralynnethomas@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu:<br><br>1. Adolygu a chynnig sylwadau ar drefniadau cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>2. Adolygu cynnydd y BGC o ran gweithredu Cynllun Llesiant 2023-2028. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at, a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio |

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. *Gyda'r Cynllun Llesiant newydd ar y gweill, i ba raddau mae'r trefniadau presennol yn cefnogi'r cyflawni?*
2. *Pa werth ychwanegol sydd wedi ei amlygu drwy gydweithio?*
3. *I ba raddau y gwelwyd bod yr argyfwng costau byw wedi effeithio ar allu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni yn erbyn y targedau allweddol?*
4. *Adroddir bod nifer o ffrydiau gwaith wedi derbyn sylw yn ystod 2022/23. Sut mae'r gwersi wedi'u hystyried ar gyfer y Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn newydd (2023/2028)?*
5. *Pa gyfleon, heriau a risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth symud ymlaen?*

**5. Cefndir / Cyd-destun**

**5.1 Cefndir:**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Sefydlodd y Ddeddf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) hefyd gydag aelodau'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r BGC yn gweithio ar y cyd fel partneriaid i sicrhau bod eu cynlluniau strategol yn cyd-fynd ag amcanion llesiant lleol ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni ac i'r gwrthwyneb; ac yn sicrhau bod cyfraniad y BGC yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i gynlluniau'r sefydliadau statudol eu hunain.

Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd a defnyddio hwn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Un o'r prif heriau i'r Bwrdd yw sefydlu lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd, gyda'r adnoddau a'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael i ni. Wrth ddatblygu'r Cynllun Llesiant, cawsom sgyrsiau am ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu'r gwaith da sydd eisoes ar y gweill mewn partneriaethau a sefydliadau eraill. Mae'r Bwrdd wedi dysgu o brofiad ac wedi addasu ei strwythurau dros y cyfnod.

**5.2 Amcanion Cynllun Llesiant 2023-28:**

Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn ym mis Mai 2023. Mae **tri Amcan Llesiant penodol, sef**:


- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.*

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.*

Mae methodoleg System Gyfan a Pwysa Iach: Cymru Iach wedi ei fabwysiadu felfel llinyn euraidd drwy'r gwaith yma. Pwysau Iach: Cymru Iach (PICI) yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru trwy gyfrwng dull system gyfan. Lansiwyd y strategaeth 10 mlynedd hon yn 2019, ac mae'r sylw pennaf ar arweinyddiaeth a galluogi newid trwy gyfrwng dull sy'n seiliedig ar systemau a wnaiff roi sylw i arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfranogi lleol, a galluogi gweithredu lleol.

Yn y cyd-destun hwn, mae defnyddio dull systemau cyfan yn golygu gweithio ar y cyd â phawb (gweithwyr proffesiynol a chymunedau lleol) a all ddylanwadu ar lif dewisiadau bwyd iach a fforddiadwy a chreu cyfleoedd i alluogi pobl i symud mwy. Trwy weithio yn y dull hwn, gallwn weithio ar yr un pryd i leihau anghydraddoldebau iechyd ac arafu'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r **iaith Gymraeg** yn flaenoriaeth parhaol i'r Bwrdd ac rydym yn ei hyrwyddo ym mhob maes o'n gwaith.



Bydd y Cynllun Cyflawni hwn yn destun adolygiad parhaus gan y BGC i sicrhau cynnydd. Mae'r trefniadau canlynol wedi'u rhoi ar waith:

Oherwydd llwyddiannau blaenorol a ffocws parhaus yr Is-grŵp Iaith Gymraeg, cytunodd y BGC y dylai barhau yn ei ffurf bresennol – dan gadeiryddiaeth Dr Lowri Hughes o Brifysgol Bangor. Yn dilyn asesiad academaidd annibynnol o effeithiolrwydd is-grwpiau BGC eraill, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r argymhelliad i sefydlu grwpiau Tasg a Gorffen â mwy o ffocws gweithredol ar gyfer pob cam gweithredu.

Felly, bydd pob un o'r camau gweithredu sydd wedi'u blaenoriaethu o dan y tri phrif amcan yn cael eu rhoi ar waith gan Grŵp Tasg a Gorffen gyda staff gweithredol o sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC yn cydweithio i gyrraedd y nod tymor byr. I gefnogi'r gwaith, byddwn yn defnyddio methodoleg Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach: Cymru Iach gyda mewnbwn gan gydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Grwpiau Tasg a Gorffen sydd eisoes ar waith ar gyfer Cynllun Cyflawni 2024 – 2025 yn cynnwys:

| **Amcan/ Gweithred *(Gweler y diagram Venn uchod)*** | **Gweithredu** |
|---|---|
| **Amcan Tlodi:** | |
| ▪ *Cynnal Gweithdai Sefydliad Bevan* | *Grŵp Tasg a Gorffen* |
| ▪ *Hyrwyddo ymgyrchoedd hawlio budd-daliadau* | *Tim Cefnogi yn cydlynu* |
| **Amcan Plant:** | |
| ▪ *Bod yn BGC sy'n Wybodus am Drawma* | *Grŵp Tasg a Gorffen* |
| ▪ *Cefnogi teuluoedd a chysoni hawliau plant* | *Grŵp Tasg a Gorffen* |
| **Amcan Newid Hinsawdd:** | |
| ▪ Gweithredu'r Siarter Teithio Llesol | *Grŵp Tasg a Gorffen* |
| ▪ Cynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar ôl-troed BGC Gwynedd a Môn | *Grŵp Tasg a Gorffen gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain* |
| • Hacathon Niwbwrch - Treialu dull gwahanol, cydweithredol o fynd i'r afael â mater arwyddocaol ond cyffredin ar lefel gymunedol benodol (Cronfeydd rhanbarthol wedi'u dyrannu i ariannu peilot). | *Grŵp Tasg a Gorffen – gyda CSYM, CNC a Tîm Cefnogi'r BGC.* |
| **Blaenoriaeth y iaith Gymraeg:** | |
| Mae'r ganolfan Gymraeg ar gyfer cynllunio ieithyddol (IAITH cyf) wedi'i chomisiynu i ymchwilio i heriau a llwyddiannau cynllunio gweithlu dwyieithog ymhlith sefydliadau sy'n rhan o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Gofynnwyd i IAITH archwilio pam fod sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael trafferth recriwtio staff i swyddi Cymraeg eu hiaith, ac a oedd yr ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain.<br>Dyddiad cwblhau y prosiect = 30/04/24 | *Is-grŵp Iaith Gymraeg* |

**5.2 Monitro:**
Mae'r Gweithgorau Tasg a Gorffen a nodir uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Byddent yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno.

Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i gefnogi a chynnal gwaith yr is-grwpiau. Yn ogystal mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

**5.5 Trefniadau Craffu:**

Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / Sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Mae Tim Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith(e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu a'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Dim |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Cynllun Llesiant Gwynedd a Mon 2018-23<br>Asesiadau Llesiant Gwynedd a Mon 2022<br>Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28 |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **17 Ebrill 2024, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2024/25** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno fersiwn gyfredol y blaen raglen waith ar gyfer 2024/25. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2024/25 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati.

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2024/25 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

Mae’r ddogfen hon ar gael yn ddwyieithog / *This document is available bilingually*



# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI Mai, 2024 → Ebrill, 2025
## [Fersiwn dyddiedig 09/04/24]

**Nodyn i Randdeiliaid a’r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi’i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio’r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â’r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2024 (21/05/24)** | **Mai, 2024 (21/05/24)** |
| Ethol Cadeirydd: 2024/25 | Ethol Cadeirydd: 2024/25 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 | Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 |
| | |
| **Mehefin, 2024 (13/06/24) – Ch4** | **Mehefin, 2024 (19/06/24) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2023/24 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2023/24<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2023/24 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2023/24 |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol 2024 | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2023/24 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Adolygiad Sgriwtini o Ddangosydd Perfformiad 29: Gosod Tai'r Cyngor | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | **Gorffennaf, 2024 (10/07/24) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Menter Môn |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn (I’w gadarnhau) |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Medi, 2024 (12/09/24) – Ch1** | **Medi, 2024 (17/09/24) -Taclo Tlodi** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2024/25 | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Medrwn Môn |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2023/24 | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (cytundeb cyflawn) (i’w gadarnhau) |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Hydref, 2024 (16/10/24)** | **Hydref, 2024 (15/10/24) - Addysg** |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (i’w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2023/24 |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24 |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2023/24<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2024/25 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | **Tachwedd, 2024 (13/11/24)** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2024 (14/11/24) - Ch2** | **Tachwedd, 2024 (20/11/24) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Comisynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) – Cyllideb 2025/26 (bore)** | **Ionawr, 2025 (14/01/25)** |
| Sefydlu Cyllideb 2025/26 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | |
| | |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2:2024/25 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) (prynhawn)** | |
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | |
| | |
| **Chwefror, 2025 (19/02/25) – Cyllideb 2025/26** | **Chwefror, 2025 (04/02/25) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2025/26 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2023/24 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Mawrth, 2025 (11/03/25) - Ch3** | **Mawrth, 2025 (12/03/25)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2024/25 | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2025/2055 | |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2024/25 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ebrill, 2025 (10/04/25)** | **Ebrill, 2025 (09/04/25)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2024/2045 (Mehefin, 2025) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Mehefin-Gorffennaf, 2025) |
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| | |